

Llyfr Log Myfyrwyr Sgiliau Arian a Chyllid

Lefel 1 - Uned 3

Uned 3 Cefnogaeth gyda Materion Ariannol

3.1 Budd-daliadau'r wladwriaeth

Darllenwch Daflen Ffeithiau Addysg Nationwide - *Benefits* ([FA2](#)) and *Financial Support* ([FA4](#)) ac atebwch y cwestiynau isod. Mae rhagor o fanylion ar gefnogaeth ariannol yn y coleg/ôl 16 ar gael ar <http://www.direct.gov.uk/en/EducationAndLearning/14To19/MoneyToLearn>

Defnyddiwch y tudalennau gwag ar ddiwedd yr uned hon os na fydd gennych ddigon o le.

3.1.1 Cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr (AC 1.1)

Mae yna wahanol ffyrdd y gall myfyrwyr dderbyn cefnogaeth ariannol i'w helpu i barhau gyda'u hastudiaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA)
- Grant Cynnal
- Benthyciad Ffioedd Dysgu
- Benthyciad Cynnal
- Ysgoloriaethau
- Bwrsariau
- Cerdyn Disgownt Myfyriwr.

Astudiaeth achos 1

Mae Jason yn 16 ac yn bwriadu cychwyn yn y coleg i astudio am ddyfarniad BTEC Cenedlaethol mewn Teithio a Thwristiaeth.

Mae ganddo ddwy chwaer iau. Mae ei dad yn arddwr ac yn ennill cyflog bach.

- a) Pa gefnogaeth ariannol fydd Jason yn gallu'i derbyn?

.....

Astudiaeth achos 2

Mae Rita yn 18 oed ac yn gwneud cais i fynd i'r brifysgol i astudio am radd lawn amser. Bydd rhaid iddi dalu ffioedd dysgu o £3,000 bob blwyddyn am dair blynedd. Mae hi wedi penderfynu byw gartref yn ystod ei chwrs. Mae Rita'n unig blentyn ac mae ei rhieni mewn swyddi sy'n talu'n dda.

- b) Beth sydd ar gael i Rita i'w helpu i dalu ei ffioedd?

- c) Pryd bydd rhaid i Rita dalu'r arian y bydd yn ei dderbyn yn ôl?

.....

Astudiaeth achos 3

Bydd Ali, sy'n 18 oed, yn astudio am radd lawn amser mewn prifysgol a bydd yn byw 150 milltir o'i gartref. Mae wedi trefnu i dalu ei ffioedd dysgu. Bydd rhaid iddo dalu am ei lety a'i fwyd. Mae mam Ali'n gweithio ac yn ennill £22,000 y flwyddyn.

- ch) Pwy fydd yn helpu Ali i dalu am ei lety a'i gostau byw?

d) Fydd angen i Ali dalu'r arian y mae'n ei dderbyn yn ôl?

.....

Astudiaeth achos 4

Mae Jess yn astudio am radd lawn amser ac mae hi wedi hawlio'r holl arian y mae hi'n gallu ei dderbyn i'w helpu gyda ffioedd dysgu a chostau byw. Mae ei rhieni'n anabl ac yn methu rhoi unrhyw gymorth ariannol iddi hi. Mae angen i Jess brynu llyfrau a deunyddiau hanfodol ar gyfer ei chwrs.

e) Beth allai Jess ei dderbyn gan ei phrifysgol i'w helpu hi?

3.1.2 Budd-daliadau i bobl sy'n methu gweithio (AC 1.2)

Astudiwch y wybodaeth isod a chysylltwch y budd-dal cywir i'r person cywir drwy roi rhif y budd-dal yn y blwch.

1	Lwfans Byw i'r Anabl
---	----------------------



Mae Mary'n 55 a dydy hi ddim yn gallu gweithio am fod angen iddi ofalu am ei gŵr sydd ag anabledd.

2	Lwfans Gofalwr
---	----------------



Mae Tom yn 40 a cholodd ei swydd pan gafodd y garej lle roedd yn gweithio ei gau.

3	Lwfans Ceisiwr Swydd
---	----------------------



Mae Don yns 60 a chafodd strôc. Mae angen help arno gyda gofal personol.

4	Pensiwn Gwladol
---	-----------------

3.2 Benthycu wedi'i gynllunio

3.2.1 Darllenwch Daflen Ffeithiau Addysg Nationwide - *Risk and Return (FC3)* and *Financial Services (FB6)* ac atebwch y cwestiynau isod.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael ar <http://www.mymoneyonline.org>

a) Esboniwch ddau reswm pam mae hi'n bwysig cynllunio wrth fenthycu arian. (AC 2.1)

i).....

ii)

b) Mae Sarah eisiau prynu car sy'n costio £3,500. (AC 2.2)

i) Beth fyddai'r ffordd orau iddi fenthycu'r arian i dalu am y car?

.....

ii) Pam mae hon yn ffordd dda iddi fenthyca arian i brynu car?

.....

.....

c) Mae angen peiriant golchi newydd ar Jo. Mae angen i Jo fenthyca'r arian i dalu am beiriant newydd. (AC 2.2)

i) Beth fyddai'r ffordd orau i Jo fenthyca'r arian i dalu am y peiriant?

.....

ii) Pam mae hon yn ffordd dda i fenthyca arian i dalu am nwyddau trydanol mawr?

.....

.....

ch) Mae'ch ffrind wedi gofyn i chi am help gan ei bod yn ei chael hi'n anodd ad-dalu arian y mae hi wedi'i fenthyca.

Mae hi am wybod lle gallai hi gael help gyda'r broblem hon. Awgrymwch ddwy ffynhonnell wahanol o gymorth iddi hi. (AC 2.3)

i)

ii)